**Cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Adeiladu – Cofnodion**

**Dyddiad:** 30 Tachwedd 2015
**Lleoliad:** Ystafell Gynadledda 24 – Tŷ Hywel, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Amser:** 15:00

**Yn bresennol:**

- Joyce Watson AC (Cadeirydd)
- Nitesh Patel (Staff Cymorth Joyce Watson AC)
- Donna Griffiths (CITB Cymru Wales)
- Mark Bodger (CITB Cymru Wales)

*Darparwyd ysgrifenyddiaeth i'r grŵp gan CITB Cymru Wales.*

---

**Eitem 1 - Croeso a chyflwyniadau**

**Croesawodd Joyce Watson AC** y rhai oedd yn bresennol i'r cyfarfod, gan nodi nad oedd sawl Aelod o'r grŵp wedi gallu dod.

**Eitem 2 - Penodi Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Adeiladu**

**Cafodd Joyce Watson AC** ei henwebu gan **Donna Griffiths**, **Joshua Miles** a **Nitesh Patel** i fod yn Gadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Adeiladu am weddill y Pedwerydd Cynulliad. Ni chafwyd gwrthwynebiad.

**Enwebodd Joyce Watson AC** a **Nitesh Patel** CITB Cymru Wales i ddarparu ysgrifenyddiaeth ar gyfer yr un cyfnod. Ni chafwyd gwrthwynebiad.

**Eitem 3 – Trafod y thema Delwedd a Recriwtio ar gyfer 2015-16**

**Cadarnhaodd Joyce Watson AC** mai blaenoriaeth y grŵp ar gyfer y flwyddyn i ddod oedd y thema delwedd a recriwtio yn y sector adeiladu, fel y cytunwyd yng nghyfarfod blaenorol y grŵp trawsbleidiol. Cytunwyd y dylid defnyddio'r cyfarfod presennol i gynllunio gweithgarwch ynghylch y thema hon.

**Nododd Donna Griffiths** mai ond 15% o weithlu'r sector adeiladu sy'n fenywaidd, a bod y mater hwn yn un bwysig i'r sector. Awgrymodd hefyd y byddai cynnal cynhadledd hanner diwrnod yn ffordd dda o godi ymwybyddiaeth ynghylch y materion sy'n ymwneud â delwedd a recriwtio, gan ganolbwyntio'n arbennig ar sut i greu gweithlu mwy amrywiol yn y diwydiant adeiladu. Cytunodd **Joyce Watson AC,** fel Cadeirydd y grŵp, fod y syniad hwn yn sail addas ar gyfer datblygu gwaith y grŵp.

**Awgrymodd Joshua Miles** nifer o ddyddiadau ar gyfer y gynhadledd arfaethedig. Cytunodd y grŵp ar 15 Mawrth 2016, a fyddai'n cyd-fynd â nifer o weithgareddau eraill sy'n gysylltiedig â Diwrnod Rhyngwladol y Menywod. Trafodwyd nifer o leoliadau posibl, gan gynnwys ystâd y Cynulliad Cenedlaethol a Chanolfan Mileniwm Cymru.

| |
|---|
| **CAM GWEITHREDU -** CITB Cymru Wales i archwilio lleoliadau posibl ar gyfer y gynhadledd hanner diwrnod ar amrywiaeth yn y sector adeiladu, a gaiff ei chynnal ar 15 Mawrth 2016. |

**Gofynnodd Joshua Miles** pa siaradwyr yr hoffai'r Grŵp eu gwahodd i'r gynhadledd i siarad ar y mater o ddenu carfan ehangach/fwy amrywiol o dalent. Gwnaed nifer o awgrymiadau, gan gynnwys Ronia Griffiths (prentis sydd wedi ennill un o wobrau Pride of Construction y CITB), Wendy Sadler (Science Made Simple), Anne-Marie Smale (Powell Dobson Architects), Rosemary Butler AC (Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol), Chwarae Teg a Helen Kane (RICS). Cytunwyd y dylai'r grŵp weithredu ynghylch nifer o'r awgrymiadau hynny a llunio agenda ar gyfer y gynhadledd.

| |
|---|
| **CAM GWEITHREDU** – CITB Cymru Wales i gysylltu â'r siaradwyr a awgrymwyd er mwyn cadarnhau a ydynt ar gael ac a ydynt yn addas ar gyfer y digwyddiad. |

**Gofynnodd Nitesh Patel** am y canlyniadau y dymunai'r grŵp eu gweld yn deillio o'r digwyddiad. Awgrymodd y dylid ymgysylltu ag ysgolion ynghylch canfyddiadau allweddol y digwyddiad. Cytunodd y grŵp fod canolbwyntio ar ganlyniadau cadarn yn angenrheidiol. Roedd hyn yn cynnwys y potensial i ddatblygu cynigion trawsbleidiol pellach ynghylch y mater o amrywiaeth yn y sector adeiladu, gweithio gyda sefydliadau fel Chwarae Teg a Techniquest i greu deunyddiau y gellid eu dosbarthu i ysgolion, a bwydo i mewn i'r gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud gan CITB Cymru Wales i ddatblygu heriau ynghylch amrywiaeth ar gyfer Bagloriaeth Cymru.

**Gofynnodd Joyce Watson AC** pa gynrychiolwyr y byddai'r Grŵp yn ceisio eu gwahodd i'r gynhadledd. Awgrymodd y dylid ymestyn gynhadledd y tu hwnt i Aelodau'r Cynulliad er mwyn cynnwys nifer o bartïon â diddordeb, gan gynnwys aelodau o fforymau a phwyllgorau rhanbarthol y CITB, pobl sy'n ymwneud â'r prosiect Menywod yn Ychwanegu Gwerth at yr Economi, a chynrychiolwyr o'r proffesiwn addysgu a chyrff proffesiynol fel Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig a Chymdeithas Frenhinol y Penseiri yng Nghymru. Cytunodd y grŵp ar y cynigion hyn.

**Yn ogystal, awgrymodd Donna Griffiths** y dylid cysylltu'r gwaith a wnaed gan y CITB ar GoConstruct, porth sy'n darparu llu o wybodaeth ar gyfer y rhai sy'n dymuno dechrau gyrfa yn y sector adeiladu.

| |
|---|
| **CAM GWEITHREDU** – Joyce Watson AC a CITB Cymru Wales i gyfathrebu gydag aelodau'r Grŵp wrth lunio rhestr o gynrychiolwyr ar gyfer y gynhadledd hanner diwrnod. |

**Eitem 4 – Unrhyw fater arall**

**Gofynnodd Joyce Watson AC** ar ba ffurf y gellid cynnal cyfarfodydd y Grŵp wedi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddychwelyd yn dilyn yr etholiad ym mis Mai 2016 er mwyn denu mwy o gynrychiolwyr. Awgrymodd y dylid cael siaradwr gwadd ar gyfer pob cyfarfod yn y dyfodol, a chael eitemau sefydlog fel tueddiadau economaidd yn y sector adeiladu. Cytunodd y Grŵp bod yna fanteision ynghlwm â'r dull gweithredu hwn ac y byddai'n destun trafodaeth bellach.

**Yn ogystal, awgrymodd Joshua Miles** y dylid adolygu amseriad y cyfarfodydd er mwy sicrhau eu bod yn cyd-fynd ag amserlenni prysur Aelodau Cynulliad. Byddai hyn o bosibl yn cynnwys cynnal cyfarfodydd brecwast a fformatau newydd eraill.

***Diwedd y cyfarfod***